# Cyngor Bro Morgannwg

# Fformiwla Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd 2023/24

# Fformiwla Ariannu Prif Ffrwd Cyngor Bro Morgannwg

## Cynnwys


1. Cyflwyniad Tudalen 3
2. Cyllideb yr Ysgol Tudalen 3
3. Niferoedd disgyblion Tudalen 6
4. Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD) Tudalen 7
5. Dyraniadau arwynebedd llawr Tudalen 8
6. Cyllid ADY Tudalen 9
7. Dyrannu cyfandaliadau Tudalen 11
8. Ariannu Prydau Ysgol am Ddim Tudalen 13

Dadansoddiad o’r UBOD Cynradd Atodiad A

Dadansoddiad o'r UBOD Uwchradd Atodiad B

Crynodeb Fformiwla Ysgolion Prif Ffrwd Atodiad C

# Fformiwla Ariannu Ysgolion Prif Ffrwd Cyngor Bro Morgannwg

## 1. Cyflwyniad

Lluniwyd y fformiwla hon gan y grŵp adolygu fformiwla ariannu ysgolion Prif Ffrwd (is-grŵp o Fforwm y Gyllideb) yn dilyn adolygiad 2016/17 o'r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion yn unol â Chynllun Ariannu Teg Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Ysgolion, Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cafodd y fformiwla hon ei hadolygu a'i diwygio trwy gydol blynyddoedd ariannol 2017/18 i 2022/23 gan Fforwm y Gyllideb. Caiff y fformiwla hon ei hadolygu'n barhaus a bydd yn parhau i fod yn eitem reolaidd ar raglen waith Fforwm y Gyllideb er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac yn ymateb i newidiadau i'r cyllid a ddarperir gan lywodraeth ganolog.

## 2. Cyllideb

Cymeradwywyd cyllideb 2023/24 gan y cabinet ar 16 Chwefror 2023 a'r Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2023.

Mae'r Cyngor wedi dyfarnu twf o £12.858M i'r gyllideb ysgolion ond mae £2.3M o'r twf hwn wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer y cynnydd mewn costau ynni a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24; sydd wedi'i gadw'n ganolog i'w ddosbarthu'n ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol yn seiliedig ar y pwysau fesul ysgol.

Y twf sydd wedi mynd i mewn i'r fformiwla ariannu ysgolion yw £10.558M a dyrannwyd £7.893M ohono i'r sector prif ffrwd fel y crynhowyd yn y tabl isod.

**Dyfarniadau Cyflog**

Ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, mae dyfarniad cyflog amcangyfrifedig o 6% wedi'i gynnwys yn y gyllideb ysgolion gyffredinol o fis Ebrill 2023.

Nid yw dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer mis Medi 2022 wedi'i gymeradwyo eto. Mae cyllideb 2023/24 wedi caniatáu cynnydd o 6.5% o fis Ebrill 2023 gan nad yw 1.5% o'r 8% sydd wedi'i gynnig ar hyn o bryd ar gyfer Medi 2022 wedi'i gyfuno. Mae'r gyllideb yn caniatáu 5% arall i staff addysgu o fis Medi 2023.

**Arbedion Effeithlonrwydd**

Mae'r Cyngor wedi dyrannu targed arbedion effeithlonrwydd i bob ysgol o £2.75M ac mae £2.402M wedi'i ddyrannu i'r sector prif ffrwd. Ar gyfer y sector prif ffrwd, mae'r arbediad effeithlonrwydd hwn wedi'i ddosbarthu trwy'r Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD).

**Cyfanswm Cyllideb Ysgolion**

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y symudiad ar y gyllideb ysgolion gyffredinol.

| **Twf y Gyllideb Ysgolion** | **Sector Prif Ffrwd** | **Sector Arbennig** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Ysgolion 2022/23** | **£91.656M** | **£13.297M** | **£104.953M** |
| **Twf** | | | |
| Chwyddiant Cyflog | £6.714M | £0.994M | £7.708M |
| Twf Demograffig | | £1.000M | £1.000M |
| Derw Newydd | | £0.500M | £0.500M |
| Canolfannau adnoddau awtistiaeth ac allgymorth uwchradd | £0.300M | | £0.300M |
| Ailbrisiadau cyfraddau | £0.250M | | £0.250M |
| Cymorth prif ffrwd ADY | £0.250M | | £0.250M |
| Prydau ysgol am ddim | £0.379M | £0.021M | £0.400M |
| Dosbarth Dysgu a Lles (Horizon) | | £0.150M | £0.150M |
| **CYFANSWM y Twf** | **£7.893M** | **£2.665M** | **£10.558M** |
| **Trosglwyddiadau** | | | |
| Ardoll Prentisiaeth | £0.247M | £0.036M | £0.284M |
| Derw Newydd | | £0.200M | £0.200M |
| Rheoli Clwb Brecwast | -£0.046M | | -£0.046M |
| Trochi yn y Gymraeg | -£0.045M | | -£0.045M |
| Cronfa Datgarboneiddio Ysgolion | -£0.015M | | -£0.015M |
| **Trosglwyddiadau net** | **£0.141M** | **£0.236M** | **£0.378M** |
| | | | |
| **Arbedion Effeithlonrwydd** | **-£2.402M** | **-0.348M** | **-£2.750M** |
| **Cyfanswm Fformiwla Ysgolion 2023/24** | **£97.289M** | **£15.850M** | **£113.139M** |
| Twf ynni (i'w ddyrannu) | | | £2.300M |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Ysgolion (adroddiad y cabinet) | | | £115.439M |

**Crynodeb o'r symudiad ar y Gyllideb Ysgolion Prif Ffrwd**

| | |
|---|---|
| Cyllideb Ysgolion Prif Ffrwd 2022/23 | £91.656M |
| Twf ar gyfer chwyddiant cyflog | £6.714M |
| Twf Arall | £1.179M |
| Trosglwyddiadau (net) | £0.141M |
| Arbedion Effeithlonrwydd | -£2.402M |
| **Cyllideb Ysgolion Prif Ffrwd 2023/24** | **£97.289M** |
| **Symudiad** | **6.1%** |

## 3. Niferoedd Disgyblion

Er mwyn sicrhau bod gan ysgolion ddigon o arian i dalu am y niferoedd a dderbynnir ym mis Medi, mae'r arian a geir yn seiliedig ar gyfrifiad ar gyfer niferoedd disgyblion wedi'u haddasu. Cyfrifir niferoedd disgyblion wedi'u haddasu fel y dangosir isod

- Nifer bresennol ar y gofrestr (dylai gyfateb i CYBLD heb ei wirio ar gyfer mis Ionawr 2023)
- Yn ogystal â 50% o'r nifer a ragamcenir ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar y gofrestr (Ionawr 2024)
- Namyn 50% o amcanestyniad y flwyddyn flaenorol (2022) ar gyfer y flwyddyn bresennol (Ionawr 2023)

Mae ychwanegu 50% o'r amcanestyniad ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o arian i reoli'r niferoedd a dderbynnir ym mis Medi. Bydd didynnu 50% o amcanestyniad y flwyddyn flaenorol yn sicrhau adfachu awtomatig ar gyfer ysgolion a oedd wedi gor-amcanestyn niferoedd disgyblion ynghyd â dyraniad ychwanegol ar gyfer y rhai lle'r oedd niferoedd disgyblion yn fwy na'r amcanestyniad.

Nodir y cyfrifiad wedi'i addasu o niferoedd disgyblion ar gyfer fformiwla prif ffrwd 2023/24 yn y tabl isod.

| | **Ionawr 2023 (Nifer ar y Gofrestr/CYBLD)** | **Ionawr 2023 (Amcangyfrif Blaenorol)** | **Amcangyfrif Ionawr 2024** | **Niferoedd Disgyblion wedi'u Haddasu** |
|---|---|---|---|---|
| | | ***- 50%*** | ***+ 50%*** | |
| Meithrin/ Cynradd | 12,344 | 12,450 | 12,388 | 12,318 |
| Uwchradd (Blwyddyn 7-11) | 8,383 | 8,475 | 8,532 | 8,412 |
| **CYFANSWM** | **20,727** | **20,925** | **20,920** | **20,730** |

*Sylwer – heb gynnwys Ôl-16 sy'n cael ei ariannu gan y grant Ôl-16*

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd yn y niferoedd disgyblion a addaswyd o fformiwla 2022/23 i fformiwla 2023/24.

| | **Nifer disgyblion a** | **Nifer disgyblion a addaswyd 23/24** | **Symudiad** |
|---|---|---|---|

| | **addaswyd 22/23** | | |
|---|---|---|---|
| Meithrin/ Cynradd | 12,385 | 12,318 | (67) |
| Uwchradd | 8,302 | 8,412 | 110 |
| **CYFANSWM** | **20,687** | **20,730** | **43** |

## 4. Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD)

Yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, rhaid dyrannu o leiaf 70% o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig trwy niferoedd disgyblion. Dylai'r dyraniad hwn gael ei bwysoli yn ôl oedran i gyfrif am y gwahanol lefelau o gyllid sy'n ofynnol trwy'r gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi dyrannu 71.5% o'r gyllideb ysgolion (ac eithrio ôl-16) trwy'r UBOD.

Ar gyfer pob disgybl amser llawn, bydd ysgol yn derbyn dyraniad Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD) fel y dangosir yn y tablau isod.

**Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD) Cynradd**

| | **Meithrin** | **Derbyn** | **Blwyddyn 1-2** | **Blwyddyn 3-6** |
|---|---|---|---|---|
| Dyraniad Disgybl | £3,334.72 | £3,444.73 | £2,966.63 | £2,688.83 |

Dangosir dadansoddiad llawn o'r UBOD Cynradd yn **Atodiad A**.

**Uned a Bwysolwyd ar sail Oedran y Disgybl (UBOD) Uwchradd**

| | **Blwyddyn 7-9** | **Blwyddyn 10** | **Blwyddyn 11** |
|---|---|---|---|
| Dyraniad Disgybl | £3,530.56 | £4,666.44 | £4,808.14 |

*Sylwer – mae disgyblion chweched dosbarth yn cael eu hariannu gan grant ôl-16 Llywodraeth Cymru ac nid ydynt yn cael eu cyfrif yn y fformiwla hon.

Dangosir dadansoddiad llawn o gyfrifiad UBOD uwchradd yn **Atodiad B.**

## 5. Dyrannu Arwynebedd Llawr

I gyfrif am gostau ysgol sy'n dibynnu ar faint adeilad yr ysgol a'i thiroedd; mae'r dyraniadau canlynol wedi'u cynnwys yn y fformiwla.

| Sail | Dyraniad | Yn Cynnwys |
|---|---|---|
| Arwynebedd y Llawr Mewnol | £18.43 y m2<br>Cyfrifwyd y swm hwn yn wreiddiol drwy ystyried gwariant gwirioneddol pob ysgol a'i rannu â'r arwynebedd llawr cyfan. | Atgyweiriadau, cynnal a chadw, diogelwch, glanhau, sbwriel, ailgylchu, cyfleustodau. Ariennir oddeutu 50% o'r costau hyn trwy'r UBOD ac ariennir y 50% sy'n weddill trwy'r dyraniad arwynebedd llawr hwn. |
| Arwynebedd y tiroedd allanol | £0.42 y m2 | Cynnal a Chadw'r Tir |

Sylwer – mae ysgolion yn derbyn £800 ychwanegol yr un i ariannu costau ailgylchu bwyd

## 6. Cyllid ADY

Mae Cyllid Prif Ffrwd ADY wedi'i rannu'n bedwar maes

i. Cyllid ADY dirprwyedig ar gyfer unedau adnoddau ac allgymorth
ii. Y Gronfa Anghenion Ychwanegol (CAY) Cynradd
iii. Cyllid ADY Prif Ffrwd Cynradd
iv. Cyllid ADY Prif Ffrwd Uwchradd

### i. Cyllid ADY dirprwyedig ar gyfer unedau adnoddau a darparu allgymorth

Mae'r cyllid canlynol wedi'i ddirprwyo i ysgolion prif ffrwd i reoli darpariaeth ADY ar ran yr Awdurdod Lleol.

| | Lleoliadau | Ariannu |
|---|---|---|
| Parc Jenner - Gwybyddiaeth ac anawsterau dysgu | 22 | £312,908 |
| Parc Jenner - allgymorth ADY | | £123,486 |
| Stryd Fawr - Lles/ trawma (anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol) | 8 | £212,109 |
| St Cyres - Anawsterau corfforol a meddygol cymhleth | 7 | £177,718 |
| Whitmore - Canolfan Awtistiaeth | 20 | £546,322 |
| Pencoedtre - Dosbarth Awtistiaeth | Dd/B | £114,944 |
| Dosbarth Awtistiaeth Ysgol Bro Morgannwg | Dd/B | £79,634 |
| **CYFANSWM Dirprwyedig** | | **£1,567,121** |
| | | |

**Unedau Adnoddau Prif Ffrwd wedi'u Dirprwyo i Ysgol y Deri** – Mae unedau adnoddau Gladstone ar gyfer lles a thrawma, canolfan adnoddau awtistiaeth St Illtud a'r Ganolfan Ymyrraeth Gynnar (CYG) yn ysgol gynradd Sant Joseff bellach i gyd wedi'u dirprwyo i Ysgol y Deri i'w rheoli o dan y Fformiwla Ysgolion Arbennig.

**Unedau adnoddau heb eu dirprwyo** - Mae unedau adnoddau yn Y Ddraig a Palmerston yn cael eu cadw'n ganolog ac nid ydynt yn cael eu dirprwyo o fewn y fformiwla ariannu.

**ii. Y Gronfa Anghenion Ychwanegol (CAY) Cynradd - £1.856M**

Cyllideb a ddyrennir i ysgolion i gefnogi disgyblion â lefel uwch o anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd. Caiff y cyllid CAY a ddyrennir fesul ysgol ei gyfuno'n un gyllideb a ddyrennir wedyn i ysgolion drwy'r Panel CAY.

Cyfanswm cyllideb CAY cynradd yw £1.856 miliwn. Mae cyfuno'r gyllideb hon yn helpu ysgolion i liniaru risg ariannol unigol sy'n deillio o lefelau uchel o gymorth ADY. Dyrennir cyllid CYA i ysgolion trwy'r UBOD – fel y nodir yn atodiad A.

**iii. Cyllid i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) prif ffrwd yn y sector cynradd £1.645M**

Swm a ddyrennir i ysgolion i gefnogi disgyblion mewn addysg brif ffrwd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dyrennir yr arian hwn fel y dangosir yn y tabl canlynol.

| | CDU / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | UBOD |
|---|---|---|
| **ADY prif ffrwd cynradd** | 1,530.23 fesul disgybl sydd â CDU, datganiad, neu a nodwyd fel Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. (82.5% o gyfanswm y dyraniad cynradd)<br>Nodyn – Nodwyd 876 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2023 | £24.67 fesul disgybl cynradd. (18.5% o gyfanswm y dyraniad cynradd) |
| | **£1,341,093** | **£303,867** |

**iv. Cyllid i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) prif ffrwd yn y sector uwchradd £2.380M**

Cyllideb wedi'i dyrannu i ysgolion uwchradd i gefnogi pob disgybl sydd ag ADY sy'n derbyn addysg brif ffrwd.

Mae ysgolion yn derbyn dyraniad o £4,012.68 fesul disgybl a nodwyd â CDU, neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.   Roedd 593 o ddisgyblion, sef cyfanswm cyllideb o £2.38M

## 7. Dyrannu Cyfandaliadau

I gyfrif am gostau waeth beth y bo maint yr ysgol a nifer y lleoedd sydd ganddi, mae'r dyraniadau cyfandaliad canlynol wedi'u cynnwys yn y fformiwla.

| Dyraniad | Swm | Sail y Cyfrifiad |
|---|---|---|
| Pennaeth | Amrywiol | Canol ystod cyflog y Pennaeth.<br>Nodyn – mae ysgolion 3-19 yn derbyn dau ddyraniad Pennaeth. |
| Gweinyddu | Ar sail nifer y lleoedd yn yr ysgol<br>Cynradd<br>Llai na 421 £49,945<br>421 neu fwy £66,594<br><br>Uwchradd £166,485 | Yn seiliedig ar aelod o staff gradd 6 mewn 1.5 CALI ar gyfer ysgolion cynradd <421, 2 CALI ar gyfer ysgolion cynradd >421 a 5 CALI ar gyfer ysgolion Uwchradd. (Mae'r dyraniad uwchradd yn cynnwys swyddog arholiadau)<br>Nodyn - Mae dyraniad ychwanegol fesul disgybl ynghlwm wrth yr UBOD am weinyddu, sef £14.45 y disgybl. |
| Gwaith Gofalu | Ar sail nifer y lleoedd yn yr ysgol<br><br>llai na 421 - £ 33,297<br>Llai na 701 - £ 49,945<br>701 neu fwy £ 58,270 | Yn seiliedig ar aelod gradd 6 o staff ac 1 CALI ar gyfer ysgolion sydd â hyd at 421 o leoedd, 1.5 CALI ar gyfer ysgolion â hyd at 701 o leoedd, ac 1.75 CALI ar gyfer ysgolion â mwy na 701 o leoedd |
| CLGau | £16,749 yr ysgol gynradd<br>£28,509 yr ysgol uwchradd | Cyfandaliad i ariannu ailgodi costau canolog a CLGau ar gyfer y gyflogres (Gwasanaethau Cyflogeion), Adnoddau Dynol, Credydwyr, Cymorth cyllid ysgolion, Ffioedd trwyddedau, TGCh (cymorth sylfaenol), cymorth GDPR ac E-Teach. |
| Trethi / Rhent / Yswiriant | Amrywiol | Taliadau amcan gwirioneddol am drethi, rhent ac yswiriant safleoedd ysgolion sefydledig. |

| | | |
|---|---|---|
| Adeiladau rhestredig | O £7,500 i £15,000 | Yn seiliedig ar gost cynnal a chadw ac atgyweirio ychwanegol amcangyfrifedig adeiladau ysgol rhestredig. |
| Trin dŵr gwastraff | O £1,000 i £4,500 | Dyraniad i'r pum ysgol y mae'n ofynnol iddynt dalu am systemau trin dŵr gwastraff |
| Cyfieithu (Cymraeg) | Cynradd - cyfandaliad o £4,080<br><br>Ysgol 3-19 oed - £40,800 | Cyfandaliad yn ychwanegol at ddyraniad fesul disgybl o £10.18 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. |
| Ailgylchu Gwastraff Bwyd | £800 yr ysgol | Bydd ysgolion yn gyfrifol o fis Ebrill 2019 am gasglu gwastraff bwyd a reolid yn flaenorol gan Vale Catering Services. |
| Clwb Brecwast | £10,000 yr ysgol gynradd | Mae swm ychwanegol fesul disgybl yn cael ei ddyrannu drwy'r UBOD |
| Lwfans Dau Safle | £155,046 yr ysgol | Yn seiliedig ar ddirprwy bennaeth nad yw'n addysgu, a dyraniad ar gyfer gweinyddu a gofalu ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer dau safle. |
| Lwfans dau safle meithrin | £82,165 yr ysgol | Ar gyfer ysgolion cynradd lle mae'r ysgol feithrin ar ddau safle ar draws priffordd. Yn seiliedig ar 1 athro a chyfraniad tuag at ofalu a gweinyddu ychwanegol |
| Lwfans ysgolion llai | Nifer y disgyblion yn llai na<br><br>141 disgybl £57,192.33<br>211 disgybl £28,596.17 | Diogelu Ysgolion Cynradd sy'n llai na'r maint gorau posibl o 210 o ddisgyblion (ac eithrio'r dosbarth meithrin).<br>Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog athrawon. Un CALI ar gyfer ysgolion sydd â llai na 141 a 0.5 CALI ar gyfer ysgolion sydd â llai na 210. |
| Cyllid ar gyfer Cyfuno a Phontio | Amrywiol. | Lleihau cyllid fesul cam oherwydd cyfuno, neu ddarparu cymorth cyllidebol i bontio ysgol |

## 8. Prydau Ysgol Am Ddim

Nid oes cyllid Prydau Ysgol Am Ddim o fewn yr Unedau a Bwysolwyd ar sail Oedran Disgyblion (UBOD) gan na fydd pob disgybl yn denu cyllid.

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae'r cyllid prydau ysgol am ddim wedi'i ddyrannu i ysgolion.

***Nodyn – mae'r data cPYADd wedi'i ddarparu gan yr adran budd-daliadau ac mae'n cynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r rhai sydd o dan y trefniadau diogelu trosiannol.***

| Dyraniad | Swm | Sail y cyfrifiad |
|---|---|---|
| Prydau Ysgol Uwchradd Am Ddim | £513.00 y disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Pris prydau £2.70 * 190 diwrnod masnachu. |
| Prydau Ysgol Cynradd Am Ddim | £475.00 y disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | Pris prydau £2.50 * 190 diwrnod masnachu. |

Codir tâl llawn ar ysgolion sy'n dewis y Cwmni Arlwyo Big Fresh am y swm llawn a ddirprwyir ar gyfer prydau ysgol am ddim ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

## Atodiad A

## Dadansoddiad o Ddyraniad UBOD Cynradd

| | Meithrin | Derbyn | Blwyddyn 1-2 | Blwyddyn 3-6 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon | £1,904.50 | £1,904.50 | £1,904.50 | £1,904.50 | Cymarebau addysgu o 1:30 a'r cyflog addysgu cynradd cyfartalog. |
| Cynorthwywyr Cymorth Dysgu'r Cyfnod Sylfaen | £755.90 | £755.90 | £277.80 | | 1:8 yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn ac 1:15 ym mlwyddyn 1 i 2. Mae hyn yn cyfrif am 35% yn unig gan fod tua 65% o'r gost hon yn cael ei dalu trwy'r Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol. |
| CPA Cynradd | £161.88 | £161.88 | £161.88 | £161.88 | |
| Technegwyr | £77.83 | £77.83 | £77.83 | £77.83 | 1 technegydd i bob 360 o ddisgyblion |
| Gweinyddu | £14.45 | £14.45 | £14.45 | £14.45 | 7% o'r gyllideb weinyddol (93% wedi'i dyrannu drwy ddyraniadau cyfandaliad) |
| Goruchwylwyr Canol Dydd | | £110.01 | £110.01 | £110.01 | 1 goruchwyliwr canol dydd i bob 45 disgybl. |
| Cyflenwi/ Mamolaeth | £88.63 | £88.63 | £88.63 | £88.63 | |
| Clwb Brecwast | £33.90 | £33.90 | £33.90 | £33.90 | Yn ogystal â dyraniad cyfandaliad fesul ysgol |
| Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | £1.30 | £1.30 | £1.30 | £1.30 | |
| Adnoddau | £103.00 | £103.00 | £103.00 | £103.00 | |
| Safle | £133.82 | £133.82 | £133.82 | £133.82 | Atgyweiriadau, Cynnal a Chadw, Diogelwch, Cyfleustodau, Glanhau, Sbwriel, Ailgylchu. Yn ogystal â chyllideb safle yn ôl arwynebedd llawr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Anghenion Ychwanegol | £150.70 | £150.70 | £150.70 | £150.70 | |
| ADY prif ffrwd | £24.67 | £24.67 | £24.67 | £24.67 | 18.5% o gyllideb ADY prif ffrwd (y gweddill wedi'i ddyrannu gan CDU/ Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy) |
| Arbedion Effeithlonrwydd | -£115.85 | -£115.85 | -£115.85 | -£115.85 | Targed arbedion effeithlonrwydd o £2.75M a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer ysgolion ar gyfer 23/24. |
| **CYFANSWM** | **£3,334.72** | **£3,444.73** | **£2,966.63** | **£2,688.83** | |

## Atodiad B

### Dadansoddiad o Ddyraniad UBOD Uwchradd

| | Blwyddyn 7-9 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Athrawon | £2,987.67 | £3,985.55 | £3,985.55 | Cymarebau addysgu o 1:20 ym mlynyddoedd 7-9 ac 1:15 ym mlynyddoedd 10 ac 11. Defnyddio cyflog addysgu uwchradd cyfartalog. |
| Technegwyr | £207.54 | £207.54 | £207.54 | 1 technegydd i bob 120 o ddisgyblion |
| Gweinyddu | £14.45 | £14.45 | £14.45 | 7% o'r gyllideb weinyddol gyfan (93% wedi'i dyrannu drwy gyfandaliadau) |
| Goruchwylwyr Canol Dydd | £110.01 | £110.01 | £110.01 | 1 goruchwyliwr canol dydd i bob 45 disgybl. |
| Cyflenwi/ Mamolaeth | £88.63 | £88.63 | £88.63 | |
| Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | £1.30 | £1.30 | £1.30 | |
| Adnoddau | £103.00 | £103.00 | £103.00 | |
| Ffioedd Arholiadau | | £138.00 | £279.70 | |
| Safle | £133.82 | £133.82 | £133.82 | Atgyweiriadau, Cynnal a Chadw, Diogelwch, Cyfleustodau, Glanhau, Sbwriel, Ailgylchu. Yn ogystal â chyllideb safle yn ôl arwynebedd llawr |
| Arbedion Effeithlonrwydd | -£115.85 | -£115.85 | -£115.85 | Targed arbedion effeithlonrwydd o £2.75M a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer ysgolion ar gyfer 23/24. |
| **CYFANSWM** | **£3,530.56** | **£4,666.44** | **£4,808.14** | |

**Atodiad C**

**Crynodeb Fformiwla Ysgolion Prif Ffrwd**

| **Dyraniad** | **Dull** | **Cyllideb £'000** | **%** |
|---|---|---|---|
| Athrawon (gan gynnwys CPA) | UBOD | £53,890 | 55.39% |
| Pennaeth | Cyfandaliad yn seiliedig ar ystod Penaethiaid | £5,936 | 6.10% |
| CCD (Cyfnod Sylfaen) | UBOD | £2,876 | 2.96% |
| Technegwyr | UBOD | £2,704 | 2.78% |
| Gweinyddu | Cyfandaliad yn seiliedig ar Nifer y Lleoedd a'r UBOD | £4,029 | 4.14% |
| Gofalwr | Cyfandaliad yn seiliedig ar Nifer y Lleoedd | £2,131 | 2.19% |
| Goruchwylwyr Canol Dydd | UBOD | £2,163 | 2.22% |
| Gwiriadau'r GDG | UBOD | £27 | 0.03% |
| Salwch/ Mamolaeth | UBOD | £1,837 | 1.89% |
| **CYFANSWM STAFFIO** | | **£75,593** | **77.7%** |
| AAA (sy'n cael ei wario fel arfer ar staffio) | Cyfandaliadau sylfaen adnoddau, dyraniadau ysgolion yn seiliedig ar CDUau/ Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy/ Datganiad | £7,507 | 7.72% |
| Safleoedd a Thiroedd | UBOD ac arwynebedd llawr | £8,329 | 8.56% |
| Adnoddau | UBOD | £2,824 | 2.90% |
| Prydau Ysgol | Hawl i gael prydau ysgol am ddim | £2,117 | 2.18% |
| Lwfansau | Ysgolion llai, Dau safle, cyfieithu, cyfuno a phontio | £1,478 | 1.52% |
| Cymorth Canolog | Cyfandaliadau | £965 | 0.99% |
| Clwb Brecwast | Cyfandaliad ac UBOD | £878 | 0.90% |
| Arbedion Effeithlonrwydd | UBOD | -£2,402 | -2.47% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | | **£97,289** | **100%** |

Sylwer – Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys y grant ôl-16 sef £7.477M